# CANA CONGREGATIONAL CHAPEL TRUST FUND

England & Wales · Charity number 515901

## Details

| | |
|---|---|
| **Status** | Registered |
| **Legal form** | Other |
| **Registered** | 1984-12-13 |
| **Register** | View on the Charity Commission register |

## Contact

| | |
|---|---|
| **Address** | Elvet Park<br>Llysonnen Road<br>Carmarthen<br>SA33 5DZ |
| **Phone** | 01267211238 |
| **Email** | hugh.elfed@btinternet.com |

## Activities

**Objects:** 1 IN OR TOWARDS THE UPKEEP AND REPAIR OF CANA CONGREGATIONAL CHAPEL AND THE MAINTENANCE OF SERVICES THEREIN. 2 IN OR TOWARDS PROVIDINGLAND AND BUILDINGS TO BE SETTLED UPON TRUST FOR USE AS A RESIDENCE FOR THE MINISTER FOR THE TIME BEING OF THE SAID CHAPEL.

**Activities:** Religeous Activities

## Classification

- **How:** Provides Services, Other Charitable Activities
- **What:** Religious Activities
- **Who:** The General Public/mankind

## Geography

- Carmarthenshire

## Finances

| Period end | Income | Expenditure | Assets | Employees |
|---|---|---|---|---|
| 2025-12-31 | £22,520 | £26,452 | - | - |
| 2024-12-31 | £23,171 | £18,456 | - | - |
| 2023-12-31 | £36,434 | £37,377 | - | - |
| 2022-12-31 | £31,254 | £33,028 | - | - |
| 2021-12-31 | £22,771 | £19,911 | - | - |

## Trustees

| Name | Role | Appointed |
|---|---|---|
| HOWARD JAMES | | |
| HUGH JONES | | |
| KENNETH JOHN THOMAS | | |
| RHIAN LLEWELYN BOWEN | | |
| THOMAS EDWARD JONES | | |
| VERNON JOHN NICHOLLS THOMAS | | |

Downloaded from opencharities.uk/ew/515901

CANA CONGREGATIONAL CHAPEL TRUST FUND


England & Wales - Charity number 515901

# Accounts

# EGLWYS ANNIBYNNOL

# CANA

## Ger Caerfyrddin




## ADRODDIAD
## o'r Cyfrifon Ariannol
## am y flwyddyn 2023

## Cyflwyniad gan ein Gweinidog

Annwyl Gyfeillion,

Daeth yn amser i'ch cyfarch unwaith eto wrth gyflwyno i'ch sylw caredig Adroddiad o weithgarwch yr eglwys am y flwyddyn 2023. Bu'n flwyddyn **brysur** iawn yn hanes Cana.

**Ail-Agor y Capel**

Llawenydd mawr i bawb ohonom oedd cael dychwelyd i addoli yn y capel ar ôl cyfnod hir o addoli yn y festri. Rwy'n siŵr y cytunwch bod y nenfwd newydd ynghyd â'r gwaith paentio yn edrych yn ardderchog. Diolch i Robert a Nigel Davies am eu gwaith, i Huw Jones am arolygu'r cwbl, i Rhian Bowen am ei mewnbwn hithau ac i bawb a fu'n helpu ym mhob ffordd arall. Diolch i chi gyfeillion Cana am eich gwaith caled yn codi'r arian i'n galluogi i fedru cyflawni'r gwaith.

Cynhaliwyd Cymanfa Ganu/Cyngerdd yng Nghana ym mis Hydref i ddathlu'r ailagor ac i nodi'n iawn 200 mlwyddiant yr Achos gan na lwyddwyd i wneud hynny yn 2021 oherwydd y Cyfnod Clo. Diolch i John Thomas am dderbyn ein gwahoddiad i fod yn Llywydd y noson ac am ei gyfraniad hael. Diolch eto am bob ymdrech gennych chi, yr aelodau, i sicrhau bod y noson yn llwyddiant mawr.

**Addoli**

Diolch yn fawr iawn i bawb am eich ffyddlondeb i'r oedfaon ar y Sul trwy gydol y flwyddyn.

Braint fawr yw eich arwain yn yr addoliad, wrth inni gael ein harwain gan yr Ysbryd i ddyfnderoedd bywiol Y Gair.

Diolch i bawb am eu parodrwydd i gymryd rhan ar y Suliau a chalondid mawr i mi yw gweld awydd yr aelodau i drefnu oedfaon eu hunain ar yr achlysuron pan fyddaf oddi cartref. Mae hyn yn dangos yr agwedd iach ac aeddfed sy'n bodoli yn eich plith.

Mae cyflwyniadau gweledol cyson yn cyfoethogi'r addoliad. Rydym yn ddiolchgar iawn i bawb sy'n cynorthwyo gydag ochr gerddorol ein haddoliad a hefyd yr ochr dechnolegol.

Da hefyd oedd cael cyfle i gydaddoli â'r Priordy a Bancyfelin, ynghyd ag oedfaon undebol Dydd Gweddi'r Byd, Tanio'r Fflam a'r Gymanfa Bwnc. Hyfryd oedd dychwelyd i Gartref Plas y Dderwen i gynnal oedfaon.

Mae'r Oedfaon Digidol yn parhau i gael eu rhyddhau o Sul i Sul. Rydym yn ddiolchgar eu bod yn dod â bendith a chysur i dros 300 o wylwyr yn gyson bob wythnos.

**Yr Ysgol Sul**

Rydym bob amser yn falch o weld y plant yn yr oedfa ac yn llawenhau eu bod yn bresennol yn yr Ysgol Sul. Cynhaliwyd dwy oedfa blant a theuluol, a hyfryd oedd gweld y teuluoedd yn cymryd rhan mewn unedau. Cafwyd oedfa deulu undebol ar y Sul pan gynhaliwyd y Gymanfa Bwnc a phinacl y flwyddyn oedd yr oedfa Nadolig a ddaeth â bendith a llawenydd i bawb.

Hoffwn ddiolch i'r rhieni i gyd am eu cefnogaeth i waith y plant yn yr eglwys a diolch arbennig i athrawon yr Ysgol Sul am eu gwaith. Hyderwn y cawn flwyddyn well yn yr Ysgol Sul yn 2023.

**Aelodaeth**

Hyfrydwch oedd derbyn dau aelod newydd i gymdeithas yr eglwys yn ystod 2023. Gobeithio eich bod yn ymgartrefu yn ein plith.

Ar nodyn trist, collwyd dau aelod o'n plith, a gweddïwn dros y teuluoedd yn eu hiraeth a'u galar.

Bu amryw o'n haelodau mewn gwaeledd yn ystod y flwyddyn a nifer mewn ysbytai. Estynnwn ein cofion cynhesaf at bawb ohonoch sy'n methu â chydaddoli â ni oherwydd llesgedd neu wendid, gan eich sicrhau ein bod yn cofio amdanoch yn ein gweddïau.

**Cymdeithasu**

Gwych oedd cael sawl cyfle yn ystod 2023 i gymdeithasu. Mwynhawyd sawl paned yn y festri, ynghyd â Swper adeg y Cwrdd Blynyddol, y Cwrdd Diolchgarwch a'r parti Nadolig.

Mwynhawyd Cinio Gŵyl Dewi Cana ynghyd â Chinio Gŵyl Dewi yng Nghlwb y Cwins, Caerfyrddin, Pererindod i Sain Ffagan a Chinio Dydd Sul yr Ofalaeth yn y New Cross Dryslwyn. Mae cwmni ffyddlon yn parhau i gwrdd am Baned a Sgwrs yn y Fox & Hounds bob mis.

**Y Ddolen**

Mae'r *Ddolen* yn dal i ymddangos o fis i fis. Diolch i bawb sydd wedi cyfrannu erthyglau diddorol i'r Ddolen, a charem wahodd yr aelodau i barhau i wneud hyn.

Mae dros 90 o bobl, sy'n cynnwys aelodau a phlant yr eglwys sy'n byw oddi cartref, yn ei dderbyn yn electronig bob mis. Os oes gennych gyfeiriad e-bost, a fyddech gystal â'i ddanfon ymlaen ataf ar beti.wyn@icloud.com. Mae'r Ddolen hefyd yn cael ei dosbarthu yn Swyddfa Bost Bancyfelin ac yn y County Stores, Sanclêr. Rydym yn ddiolchgar am y grant ariannol hael oddi wrth Ddydd Gweddi'r Byd tuag at gostau'r Ddolen.

Cofiwch hefyd am dudalen *FACEBOOK* Capel Cana sy'n cynnwys newyddion cyfredol yr eglwys, lluniau o ddigwyddiadau a threfn wythnosol y Sul a thudalen sy'n profi'n hynod o boblogaidd, hefyd gyfrif Trydar y Capel sef @Cana-Bancyfelin. Cofiwch ein dilyn! Ceisiaf hefyd gael newyddion a lluniau'r eglwys ym Mhapur Bro *Y Cardi Bach* bob mis yn ogystal â threfn yr oedfaon yn *Y Journal*.

**Achosion da**

Ymatebodd yr eglwys yn arbennig iawn i apeliadau elusennol yn ystod 2023 fel Banc Bwyd Caerfyrddin a Chymorth Cristnogol ynghyd ag Apêl Anrhegion Nadolig Cyngor Sir Caerfyrddin. Diolch i chi i gyd am eich cefnogaeth ariannol ac ymarferol i'r apeliadau dyngarol hyn. Gwn yn iawn fod nifer ohonoch yn cefnogi llawer iawn o elusennau'r tu allan i'r eglwys hefyd. Mae'r cwbl yn arwydd clir o'ch awydd mawr i daenu mantell eich gofal a'ch consýrn dros eraill.

**Dementia Gyfeillgar**

Da gweld bod yr eglwys wedi cymryd camau tuag at fod yn Eglwys Dementia Gyfeillgar. Mae arwyddion wedi eu gosod yn y capel a'r festri, gosodwyd seddau tŷ bach coch yn eu lle, a chafwyd prynhawn bendigedig o ganu emynau dros baned yn y festri yng nghwmni rhai o drigolion Cartref Plas y Dderwen a Chartref Dôl y Felin. Edrychwn ymlaen at ddatblygu'r gwaith hwn ymhellach yn ystod 2024.

**Yr Adeiladau**

Rydym yn ddyledus iawn i Hugh Jones am gadw llygad ar yr adeiladau a'n harwain i gwrdd ag unrhyw waith sydd angen ei gyflawni. Diolch hefyd i Howard a Non James am eu gwaith yn goruchwylio'r fynwent, i Ken a Heulwen am eu gwaith yn glanhau'r Capel a'r festri, i ofalwyr y mis am weld i'w cyfrifoldebau yn ffyddlon ac i bawb arall sydd wedi helpu ym mhob ffordd ar hyd y daith.

**Llywyddiaeth**

Daeth fy nhymor fel Llywydd **Undeb** yr Annibynwyr Cymraeg i ben ym mis Gorffenanf, 2023. Bu'n fraint ac yn brofiad cadarnhaol iawn. Diolch i'r Ofalaeth am bob cefnogaeth yn ystod cyfnod fy llywyddiaeth.

**Yr Ofalaeth Newydd**

Yn dilyn cyfnod hir o drafodaeth am y posiblrwydd o ehangu'r Ofalaeth, penderfynwyd drwy fwyafrif mewn Cwrdd Eglwys ar 4 Tachwedd 2023 o blaid cyfuno ein Gofalaeth ni â Gofalaeth Heol Awst ac Elim i greu Gofalaeth newydd sef 'Gofalaeth Caerfyrddin a Bancyfelin'. Bydd yr Ofalaeth newydd yn cychwyn ar 1 Ebrill 2024. Dyma gyfle newydd a chyffrous i gryfhau'r dystiolaeth Gristnogol yn y dref ac ardal Bancyfelin ar gyfer y dyfodol. Dymunwn fendith Duw ar y bennod newydd hon yn ein hanes.

**Diolchiadau**

Manteisiaf ar y cyfle hwn i ddiolch i chi, yr aelodau, am eich rhan *ym mhob ffordd*, ar hyd y flwyddyn yn hanes yr eglwys hon. Diolch i'r diaconiaid i gyd am eu cymorth mawr wrth arwain yr eglwys. Mae eu hymroddiad yn fawr a llawer iawn o waith yn cael ei wneud yn dawel bach.

Mae'n siŵr gennyf fy mod wedi hepgor nifer o bethau yn yr adroddiad hwn, ond diolch ein bod yn cael y newyddion i gyd yn fisol trwy gyfrwng *Y Ddolen.*

Diolch i swyddogion yr eglwys sy'n ysgwyddo llawer iawn o gyfrifoldebau ac yn gefn mawr i'r eglwys a'r gweinidog.

Diolch hefyd i chi i gyd am eich cefnogaeth i'm gweinidogaeth yn ystod y flwyddyn a aeth heibio, a'ch caredigrwydd i ninnau fel teulu – yn enwedig ar awr dywyll.

Mae'n ddyletswydd arnaf hefyd i ddiolch i bawb a fu'n gyfrifol am gynhyrchu'r Adroddiad Blynyddol hwn, a'i lywio drwy'r Wasg.

Awn ymlaen i weld pa gyfleoedd fydd gan 2024 i'w cynnig i ni. Gafaelwn yn dynn ar bob cyfle i fentro yn enw Duw ac er lles ei Deyrnas Ef.

Pob bendith i chi **i** gyd

Y gywir

Beti-Wyn

# MANTOLEN EGLWYS ANNIBYNNOL CANA 2023

## Derbyniadau

| | | |
|---|---|---|
| Cyfraniadau Aelodau | ................................................... | £7,223.00 |
| Caredigion yr Achos | ................................................... | £660.00 |
| Casgliadau ar y Sul | ................................................... | £495.35 |
| Difidend y Gronfa Fuddsoddi | ................................................... | £5,100.62 |
| Rhent Ty Capel | ................................................... | £3,400.00 |
| Rhent yr Ardd | ........................................................ | £400.00 |
| Ad-daliad treth incwm | ................................................... | £3,816.30 |
| Apêl daeargryn Twrci a Syria | ................................................... | £118.80 |
| Cawl Gŵyl Dewi | ........................................................ | £100.00 |
| Cymorth Cristnogol | ................................................... | £100.00 |
| Lle bedd Ida Mary Evans | ................................................... | £50.00 |
| Lle bedd June Thomas | ........................................................ | £50.00 |
| Angladdau tu allan i'r ofalaeth (gan y gweinidog) | ....................................................... | £183.33 |
| Y Gymanfa Fodern | ....................................................... | £737.00 |
| Cyfrif Virgin Money | ...................................................... | £6,000.00 |
| Cyfrif y gronfa fuddsoddi | ...................................................... | £8,000.00 |
| | | £36,434.40 |
| Mewn llaw ar ddechrau'r flwyddyn HSBC | ..................................... | £7,036.20 |
| | | £43,470.60 |

**<u>Cyfrif Elusen Virgin Money</u>**

| | | |
|---|---|---|
| Mewn llaw ar ddechrau'r flwyddyn | ..................................... | £6,298.11 |
| Tynnu allan | .......................................... | £6,000.00 |
| Llog | ..................................... | £7.03 |
| Mewn llaw ar ddiwedd y flwyddyn | ..................................... | £305.14 |

# MANTOLEN EGLWYS ANNIBYNNOL CANA 2023

**Taliadau**

| | |
|---|---|
| Y Weinidogaeth ........................................................................ | £10,413.93 |
| Gweinidogion Gwadd ......................................................... | £420.00 |
| Argraffu'r Adroddiad a'r Ddolen, postio .................................... | £338.88 |
| Trydan........................................................................... | £1,648.78 |
| Yswiriant........................................................................ | £2,010.42 |
| Dŵr Cymru (£119.12), diffoddwyr tân (£80.22).......................... | £199.34 |
| Apêl daeargryn Twrci a Syria.................................................. | £120.00 |
| Undeb yr Annibynwyr Cymraeg ............................................ | £460.00 |
| Cyfundeb Gorllewin Caerfyrddin ............................................ | £16.00 |
| Cymorth Cristnogol............................................................. | £100.00 |
| Cwblhau'r nenfwd a phaentio'r capel........................................ | £14,237.66 |
| Ystafell ymolchi Newydd a phaentio yn Tŷ Capel........................ | £5,459.00 |
| Glanhau (£628.08, Hoover Newydd (£149.00)............................. | £777.08 |
| Torri porfa (£300.00), arwyddion sbwriel (£40.00)...................... | £340.00 |
| Cyfraniad i drip yr Ofalaeth..................................................... | £15.00 |
| Noddi rhaglen Garnifal Bancyfelin.............................................. | £35.00 |
| Blodau i deulu'r gweinidog....................................................... | £20.00 |
| Hamper i Roy.......................................................................... | £9.05 |
| Neuadd Bancyfelin prynu organ............................................... | £250.00 |
| Vaughan Sound ail diwnio'r system sain.................................... | £132.00 |
| Organyddion (£50.00), Wifi (£120.79)......................................... | £170.79 |
| Dau degell i'r gegin (£40.00), Gwin Cymun (£13.00).................. | £53.00 |
| Seddau coch dementia............................................................. | £59.80 |
| | |
| Treuliau Banc ......................................................................... | £92.00 |
| | £37,377.73 |
| Mewn Llaw ar diwedd y flwyddyn ........................................ | £6,092.87 |
| | £43,470.60 |

**<u>Y Gronfa Fuddsoddi</u>**

*Gwerth y gronfa Rhagfyr 2023*............................................................ <u>£147,625.00</u>

Archwiliwyd a chafwyd yn gywir
D Kevin Ward ACIB / BSc (Hons) (06/02/2024)

**CANA CONGREGATIONAL CHAPEL TRUST FUND**


England & Wales - Charity number 515901

# Accounts

# EGLWYS ANNIBYNNOL

# CANA

## Ger Caerfyrddin




# ADRODDIAD

## o'r Cyfrifon Ariannol
## am y flwyddyn 2022

## Cyflwyniad gan ein Gweinidog

Annwyl Gyfeillion,

Pleser yw eich cyfarch wrth gyflwyno i'ch sylw caredig Adroddiad o weithgarwch yr eglwys am y flwyddyn 2022. Dyma'r ugeinfed tro i mi eich cyfarch yn y modd hwn. Bu 2022 yn flwyddyn a'n heriodd i chwilio'n weddigar am y ffordd ymlaen wrth i ni geisio codi ar ein traed yn dilyn effeithiau Covid-19.

### Addoli

Hoffwn ddiolch i bawb am eich ffyddlondeb i'r oedfaon ar y Sul trwy gydol y flwyddyn. Gwych oedd gweld drysau'r capel led y pen ar agor unwaith eto. Do, dychwelodd yr oedfaon i'w trefn arferol ond gyda rhai newidiadau cadarnhaol yn dilyn profiadau newydd a ddysgwyd gennym yn ystod y cyfnod clo. Penderfynwyd parhau i ryddhau oedfa ddigidiol. Credwn ein bod trwy'r cyfrwng hwn yn cwrdd ag angen pawb oddi mewn i'r eglwys sy'n dymuno addoli ar y Sul, a nifer y tu hwnt i ffiniau'r eglwys leol.

Braint fawr yw eich arwain yn yr addoliad, ym mha gyfrwng bynnag y mae hwnnw, a chael cyfle i ddysgu gyda'n gilydd am wirioneddau Duw a thyfu gyda'n gilydd yn y Ffydd.

Diolch i bawb am eu parodrwydd i gymryd rhan ar y Suliau a chalondid mawr i mi yw gweld awydd yr aelodau i drefnu oedfaon eu hunain ar yr achlysuron pan fyddaf oddi cartref. Mae hyn yn dangos yr agwedd iach ac aeddfed sy'n bodoli yn eich plith.

Mae cyfraniadau cerddorol ynghyd â'r cyflwyniadau gweledol cyson yn cyfoethogi'r addoliad. Rydym yn ddiolchgar iawn i bawb sy'n cynorthwyo gydag ochr gerddorol ein haddoliad a hefyd yr ochr dechnolegol.

Gwerthfawrogwyd hefyd y cyfle i ddarlledu Oedfa Bore Nadolig 2022 ar Radio Cymru. Diolch yn fawr iawn i bawb a fu'n fy nghynorthwyo.

Da hefyd oedd ailgydio yn yr oedfaon Undebol gyda'r Priordy a Bancyfelin a dod ynghyd unwaith eto fel gofalaeth wedi bod ar wahân oherwydd Covid ynghyd â chymryd rhan unwaith eto yn oedfa Dydd Gweddi'r Byd.

### Yr Ysgol Sul

Ailgydiwyd yng ngwaith yr Ysgol Sul yn ara bach. Cynhaliwyd dwy oedfa blant a theuluol, a hyfryd oedd gweld y teuluoedd yn cymryd rhan mewn

unedau. Gwych oedd ailgydio mewn oedfa deulu undebol ar y Sul pan gynhaliwyd y Gymanfa Bwnc a phinacl y flwyddyn oedd yr oedfa Nadolig a ddaeth â bendith a llawenydd i bawb.

Hoffwn ddiolch i'r rhieni i gyd am eu cefnogaeth i waith y plant yn yr eglwys a diolch arbennig i athrawon yr Ysgol Sul am eu gwaith. Hyderwn y cawn flwyddyn well yn yr Ysgol Sul yn 2023.

**Aelodaeth**

Mae aelodaeth Capel Cana wedi aros yn go sefydlog yn ystod y blynyddoedd diwethaf ar y cyfan. Hyfrydwch oedd derbyn pedwar aelod newydd i gymdeithas yr eglwys. Gobeithio eich bod yn ymgartrefu yn ein plith.

Bu amryw o'n haelodau mewn gwaeledd yn ystod y flwyddyn a nifer mewn ysbytai. Estynnwn ein cofion cynhesaf at bawb ohonoch sy'n methu â chydaddoli â ni oherwydd llesgedd neu wendid, gan eich sicrhau ein bod yn cofio amdanoch yn ein gweddïau.

**Cymdeithasu**

Gwych oedd cael sawl cyfle yn ystod 2022 i gymdeithasu. Gwelwyd eisiau'r wedd hon **ar** fywyd yr eglwys yn fawr iawn yn ystod y cyfnod clo. Mwynhawyd sawl paned tu allan yn yr haul ac yn y festri, ynghyd â Swper adeg y Cwrdd Blynyddol, y Cwrdd Diolchgarwch a'r parti Nadolig. Edrychwn ymlaen at achlysuron tebyg yn ystod 2023.

Mwynhawyd Cinio Gŵyl Dewi Cana yn Neuadd Bancyfelin, Te Gŵyl Dewi yr Ofalaeth yng Ngwesty'r Llwyn Iorwg, Pereindod i Soar y Mynydd a Chinio Dydd Sul yr Ofalaeth yn y New Cross Dryslwyn. Arbrawf llwyddiannus hefyd oedd cychwyn Paned a Sgwrs yn y Fox & Hounds bob mis.

**Y Ddolen**

Mae'r *Ddolen* yn dal i ymddangos o fis i fis. Diolch i bawb sydd wedi cyfrannu erthyglau diddorol i'r Ddolen, a charem wahodd yr aelodau i barhau i wneud hyn.

Mae'r drefn o ddosbarthu'r Ddolen drwy ebost yn llwyddiant gyda thros 90 o bobl, sy'n cynnwys aelodau a phlant yr eglwys sy'n byw oddi cartref, yn ei dderbyn yn electronig bob mis. Os oes gennych gyfeiriad e-bost, a fyddech gystal â'i ddanfon ymlaen ataf ar beti.wyn@icloud.com. Yn ogystal

â thudalen Capel Bancyfelin ar FACEBOOK mae gennym erbyn hyn gyfrif Trydar. Mae'r Ddolen hefyd yn cael ei dosbarthu yn Swyddfa Bost Bancyfelin.

Cofiwch hefyd am dudalen *FACEBOOK* Capel Cana sy'n cynnwys newyddion cyfredol yr eglwys, lluniau o ddigwyddiadau a threfn wythnosol y Sul a thudalen sy'n profi'n hynod o boblogaidd, hefyd gyfrif Trydar y Capel sef @Cana-Bancyfelin. Cofiwch ein dilyn! Ceisiaf hefyd gael newyddion a lluniau'r eglwys ym Mhapur Bro *Y Cardi Bach* bob mis yn ogystal â threfn yr oedfaon yn *Y Journal*.

**Achosion da**

Bu 2022 yn flwyddyn pan ymatebodd yr eglwys yn arbennig iawn i apeliadau elusennol fel Banc Bwyd Caerfyrddin a Chymorth Cristnogol ynghyd ag Apêl Anrhegion Nadolig Cyngor Sir Caerfyrddin. Diolch i chi i gyd am eich cefnogaeth ariannol ac ymarferol i'r apeliadau dyngarol hyn. Gwn yn iawn fod nifer ohonoch yn cefnogi llawer iawn o elusennau'r tu allan i'r eglwys hefyd. Mae'r cwbl yn arwydd clir o'ch awydd mawr i daenu mantell eich gofal a'ch consýrn dros eraill.

**Yr Adeiladau**

Bu 2022 yn flwyddyn heriol i'r eglwys o ganlyniad i'r gwaith mawr a oedd i'w wneud ar adeilad y Capel. Hoffwn ddiolch i chi i gyd am eich doethineb a'ch graslonrwydd yn y cyrddau eglwys wrth drafod mater a oedd yn hynod o sensitif. Penderfynwyd bwrw ymlaen â'r gwaith o atgyweirio'r capel. Diolch yn fawr iawn i bawb a gyfrannodd yn hael yn ariannol. Mae'r gwaith bellach bron ar ben ac edrychwn ymlaen at ddychwelyd i'r capel cyn bo hir. Rydym yn ddyledus iawn i Hugh Jones am oruchwylio'r gwaith ac i bawb arall sydd wedi helpu ym mhob ffordd ar hyd y daith.

**Ugain mlynedd**

I ble'r aeth yr ugain mlynedd diwethaf dwedwch?! Mae'n teimlo fel ddoe ers cynnal fy nghwrdd sefydlu. Bu'n fraint fawr i mi wasanaethu fel eich gweinidog dros gyfnod o ugain mlynedd. Gwerthfawrogaf eich cyfeillgarwch a'ch caredigrwydd, pan oedd yr haul yn gwenu'n braf a phan ddaeth ambell gwmwl i daflu ei gysgod. Rydym wedi bod ar daith arbennig

iawn gyda'n gilydd. Edrychwn ymlaen at gyd-deithio ymlaen i'r dyfodol dan arweiniad a bendith Duw.

**Diolchiadau**

Do, bu 2022 yn flwyddyn o ailgydio ac ailadeiladu. Diolch yn fawr iawn i chi i gyd am eich awydd mawr i ddychwelyd i'r capel wedi'r cyfnod clo. Mae'n dda cael ein cwmni.

Hoffwn ddiolch i'r diaconiaid i gyd am eu cymorth mawr wrth arwain yr eglwys. Mae eu hymroddiad yn fawr a llawer iawn o waith yn cael ei wneud yn dawel bach.

Mae'n siŵr gennyf fy mod wedi hepgor nifer o bethau yn yr adroddiad hwn, ond diolch ein bod yn cael y newyddion i gyd yn fisol trwy gyfrwng *Y Ddolen.*

Manteisiaf hefyd ar y cyfle hwn i ddiolch i chi, yr aelodau, am eich rhan *ym mhob ffordd*, ar hyd y flwyddyn yn hanes yr eglwys hon.

Diolch hefyd i chi i gyd am eich cefnogaeth i'm gweinidogaeth yn ystod y flwyddyn a aeth heibio, a'ch caredigrwydd i ninnau fel teulu.

Mae'n ddyletswydd arnaf hefyd i ddiolch i bawb a fu'n gyfrifol am gynhyrchu'r Adroddiad Blynyddol hwn, a'i lywio drwy'r Wasg.

Pob bendith a daioni i chi i gyd. Mae 2023 yn galw.

Yn gywir
Beti-Wyn

## EGLWYS ANNIBYNNOL CANA- MANTOLEN YR EGLWYS 2022

Derbyniadau

| | |
|---|---|
| Cyfraniadau Aelodau ........................................ | £7,393.00 |
| Caredigion yr Achos ........................................ | £700.00 |
| Casgliadau ar y Sul ........................................ | £446.51 |
| Ad-daliad treth incwm ........................................ | £1,866.27 |
| Difidend y Gronfa Fuddsoddi ........................................ | £5,113.83 |
| Rhent Ty Capel ........................................ | £3,000.00 |
| Apêl Wcrain ........................................ | £256.76 |
| Cymorth Cristnogol ........................................ | £50.00 |
| Cawl Gŵyl Dewi ........................................ | £132.63 |
| Llestri dathlu 200 mlwyddiant Cana ........................................ | £40.00 |
| Llyfrau dathlu 200 mlwyddiant Cana ........................................ | £35.00 |
| Lle bedd Gerald Harris ........................................ | £600.00 |
| Lle bedd i lwch Heather Jones ........................................ | £600.00 |
| Lle bedd Annie Muriel Freeman ........................................ | £600.00 |
| Angladdau tu allan i'r ofalaeth gan y Gweinidog ..................... | £200.00 |
| | £21,034.00 |
| Rhoddion atgyweirio nenfwd y Capel | £10,220.00 |
| Mewn llaw ar ddechrau'r flwyddyn ........................................ | £8,811.10 |
| | £40,065.10 |

**Cyfrif Elusen Virgin Money**

| | |
|---|---|
| Mewn llaw ar ddechrau'r flwyddyn ........................................ | £6,283.97 |
| Llog ........................................ | £14.14 |
| Mewn llaw ar ddiwedd y flwyddyn ........................................ | £6,298.11 |

**Er Gwybodaeth :-**

Derbynnir y cyfraniadau aelodaeth cyn gynted â phosibl, o Ebrill ymlaen, os gwelwch yn dda er mwyn ennill llog yn ystod y flwyddyn.

Bydd y Cyfrifon yn cau yn brydlon ar y dydd olaf o Ragfyr.

Disgwylir i bob aelod gyfrannu at gyllid yr Eglwys; oni wnewch hyn am ddwy flynedd yn olynol, cymerir yn ganiataol nad ydych yn dymuno cadw eich aelodaeth.

Taliadau

| | |
|---|---|
| Y Weinidogaeth ............................................................................. | £10,019.10 |
| Gweinidogion Gwadd ...................................................................... | £385.00 |
| Yswiriant yr Adeiladau ................................................................... | £1,795.00 |
| Argraffu'r Adroddiad a'r Ddolen, postio ......................................... | £418.96 |
| Dŵr Cymru (£105.39), diogelwch tân (£55.14) ............................... | £160.53 |
| Trydan (£792.60), diogelwch nwy Tŷ Capel (£45.00) ..................... | £837.60 |
| Apêl Wcrain (£300.00), Cymorth Cristnogol (£50.00) ..................... | £350.00 |
| Undeb yr Annibynwyr Cymraeg ........................................................ | £460.00 |
| Cyfundeb Gorllewin Caerfyrddin ..................................................... | £45.00 |
| Mudiad Ieuenctid Cristnogol (MIC) ................................................. | £200.00 |
| Cyfraniad i gyfarfod yr Undeb ........................................................ | £100.00 |
| Tocyn i Sheila am wneud cawl ....................................................... | £35.00 |
| Cynnal a chadw yn y ddwy fynwent ................................................. | £600.00 |
| Glanhau'r Capel a'r festri ............................................................. | £641.25 |
| Gwin cymun (£12.00), organyddion (£30.00) ................................... | £42.00 |
| Carden wifi (£128.37), cynllun OS o Gana (£23.99) ........................ | £152.36 |
| Anrhegion Penblwydd i Ida a Margaret ........................................... | £19.44 |
| Rhodd i'r gweinidog i ddathlu 20 mlwyddiant yn yr ofalaeth ....... | £300.00 |
| Cacen i ddathlu 20 mlwyddiant y Gweinidog ................................... | £25.00 |
| Noddi dathlu 150 mlwyddiant Ysgol Bancyfelin ............................. | £25.00 |
| Trip Soar y Mynydd (£43.00), baner Cana (£32.60) ........................ | £75.60 |
| Profion trydan a weiro'r Defibrillator ............................................. | £528.60 |
| Atgyweirio'r toiled allan ................................................................. | £141.06 |
| Gwacau carthbwll Tŷ Capel ........................................................... | £160.00 |
| Treuliau Banc ................................................................................ | £89.60 |
| | £17,606.10 |
| Gwaith atgyweirio nenfwd y Capel ................................................. | £15,422.80 |
| Mewn Llaw ar diwedd y flwyddyn ................................................... | £7,036.20 |
| | £40,065.10 |

**<u>Y Gronfa Fuddsoddi</u>**

*Gwerth y gronfa Rhagfyr 2022* ............................................................ <u>£148,254</u>

*Archwiliwyd a chafwyd yn gywir:*
*T.ADRIAN EVANS F.C.I.B. – 28/01/23.*